**Ymlaciwch fel un o’r Rhufeiniaid**

Yn ogystal ag ymlacio yn y baddondy, roedd milwyr Rhufeinig wrth eu boddau yn chwarae gemau gyda'u ffrindiau ar ôl diwrnod caled o hyfforddi ac ymladd- yn enwedig os oedd arian i'w ennill!

Roedd Merrills yn gêm boblogaidd ymhlith milwyr Rhufeinig a byddent yn aml yn chwarae am arian. Rhowch gynnig arni gyda’ch cyd-ddisgyblion, ond peidiwch â chymryd yn ganiataol y byddwch yn ennill (oni bai eich bod yn dda iawn!)...

**Rheolau Merrills**

- Taflwch ddarn arian i fyny (neu gallech chwarae craig, siswrn, papur) i weld pwy sy'n mynd gyntaf.
- Mae gan bob chwaraewr dri chownter. Mae'r chwaraewr cyntaf yn rhoi eu cownter cyntaf ar y bwrdd ar un o'r mannau lle mae dwy linell yn cwrdd. Mae'r ail chwaraewr yn gosod eu cownter cyntaf ac yna’n cymryd eu tro am yn ail nes bod y chwe chownter ar y bwrdd.
- Y chwaraewr cyntaf sy'n gwneud y symudiad cyntaf. Gellir symud cownteri ar hyd un adran rhwng dau fan ar y tro.
- Nod y gêm yw ffurfio 'melin'- lle mae'r tri chownter mewn llinell syth. Os yw un chwaraewr yn ffurfio melin, gall gymryd un o gownteri chwaraewr arall. Mae'r 'felin' yn aros yn ei lle ar y bwrdd ond ni ellir cymryd unrhyw un o'r cownteri ynddi; mae hyn yn gwneud y gêm yn fwy anodd gan nad oes modd gwneud rhai symudiadau pellach gyda rhai mannau.
- Os bydd un chwaraewr yn glanio ar gownter chwaraewr arall nad yw mewn 'melin', gall gymryd y cownter hwnnw.
- Y cyntaf i ennill holl gownteri ei wrthwynebwyr yw'r enillydd.

**Mwynhewch a phob lwc!**

